# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 18 HYDREF 2016 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r CynghoryddP M Black (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A C S Colburn | N J Davies | J A Hale |
| E T Kirchner | K E Marsh | L V Walton |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Prif Swyddog Trawsnewid |
| Huw Evans | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Jo Harley | Rheolwr Perfformiad Strategol TGCh |
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro |

8 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr R A Clay, J P Curtice a D J Lewis.

9 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr P Black, A C S Colburn, N J Davies, J A Hale, E T Kirchner, K E Marsh ac L V Walton fudd personol yng Nghofnod 12, "Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) 2017 - 2018 - Ymgynghoriad" gan y bydd pob cynghorwr yn elwa o'r cynnydd arfaethedig gwerth £100 i'r cyflog sylfaenol.

10 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2016 fel cofnod cywir.

**Materion yn Codi:**

Cofnod 6 - Hunanwasanaeth i Gynghorwyr

Gofynnodd y Cadeirydd am yr wybodaeth ddiweddaraf o ran penderfyniad 2 - mae angen ychwanegu'r paneli Craffu ac agweddau eraill ar y broses graffu at y system feddalwedd Modern.gov.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod rhai trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Rheolwr Craffu, fodd bynnag, roeddent yn parhau i ddefnyddio fformat arall i gyhoeddi cyfarfodydd y Panel Ymchwiliad Craffu a'r Gweithgor. Nodwyd fodd bynnag bod Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn cael ei gyhoeddi drwy feddalwedd Modern.gov, ac roedd modd cael mynediad iddo drwy'r ap.

**PENDERFYNWYD** y dylid cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan amlinellu pryd bydd y Paneli Ymchwilio Craffu, etc., yn cael eu cysylltu â'r meddalwedd Modern.gov, a brynwyd gan yr awdurdod, gan fod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn awyddus i ddefnyddio un llwyfan ar gyfer cyhoeddiadau agendâu perthnasol.

## 11 LWFANSAU BAND EANG, FFÔN, TGCH A FFÔN SYMUDOL I GYNGHORWYR - MAI 2017 AC WEDI HYNNY.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, y Prif Swyddog Trawsnewid a'r Rheolwr Perfformiad Strategol TGCh adroddiad a geisiodd adolygu'r polisi "TGCh Cynghorwyr - mis Mai 2012 a'r tu hwnt", gan sicrhau felly bod pob Cynghorydd yn derbyn darpariaeth TGCh sy'n addas ar gyfer ei anghenion, ac sy'n cydymffurfio â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA).

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y pynciau canlynol:

- Darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â phecynnau cefnogi TGCh amrywiol sydd ar gael, a rhoi gwybodaeth am ddyfeisiau cydnaws ym mhecyn sefydlu cynghorwyr 2017. Darparu seminarau/sesiynau hyfforddiant o ran sut i weithredu dyfeisiadau. Bod yr wybodaeth yn cael ei hailadrodd drwy gydol y cyfnod swydd 5 mlynedd o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol;
- Byddai'r ddesg gymorth TGCh yn parhau i gynorthwyo Cynghorwyr gyda materion sy'n ymwneud â meddalwedd yr awdurdod/materion rhwydwaith;
- Gosodwyd Windows 10 ar liniaduron, fodd bynnag roedd Windows 7 yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfrifiaduron pen desg.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cefnogi'r adroddiad a'i argymhellion, ac yn argymell ei fod yn cael ei fabwysiadu gan y Cabinet fel a ganlyn:

1) Anfon yr adroddiad at y cyngor cyn y Cabinet er mwyn derbyn unrhyw sylwadau ychwanegol gan Gynghorwyr;

2) Parhau â'r trefniadau presennol o ran Cynghorwyr yn prynu eu hoffer TGCh eu hunain;

3) Nodi bod angen mynediad i Office 365 er mwyn galluogi technoleg y cwmwl er mwyn creu system rhannu gwybodaeth fwy diogel a gwydn, yn amodol ar gyfnod prawf llwyddiannus;

4) Nodi lwfans TGCh y Cynghorwyr fel a amlinellwyd yn yr adroddiad;

5) Nodi lwfans band eang a ffôn y Cynghorwyr fel a amlinellwyd yn yr adroddiad;

6) Nodi lwfans ffôn symudol y Cynghorwyr fel a nodwyd yn yr adroddiad;

7) Nodi cynnwys yr adran sy'n ymwneud â hunanwasanaeth i Gynghorwyr.

## 12 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (PACGA) 2017-2018 - YMGYNGHORIAD.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad er mwyn casglu barn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Adroddiad Blynyddol Drafft 2017-2018 Panel Annibynnol Cymru, ac i wneud sylwadau am y penderfyniadau a wnaed. Byddai'r sylwadau'n llunio adroddiad i'r cyngor wedi'i ddilyn gan ymateb ffurfiol i'r PACGA erbyn y dyddiad cau sef 28 Tachwedd 2016.

**PENDERFYNWYD** anfon yr ymatebion a amlinellwyd yn Atodiad A at y cyngor ar yr amod y gwneir newidiadau/ychwanegiadau canlynol:

**Penderfyniad 2:**

1) Mae'r awdurdod yn dal i fod yn bryderus am y ddwy lefel o daliadau a grëwyd ym mis Chwefror 2016 ar gyfer aelodau'r Cabinet a chadeiryddion pwyllgorau. Mae'r awdurdod yn credu y byddai arweinydd cyngor yn creu cabinet cytbwys gyda chyfrifoldeb ar y cyd. Nid yw unrhyw Aelod y Cabinet yn fwy neu'n llai pwysig i'r broses o wneud penderfyniadau. Er bod rhai portffolios yn ymddangos yn llai nag eraill, bydd y rheiny â lwfansau llai yn wynebu anawsterau gan y gallai lwfans llai arwain at ganlyniadau mwy llym. Yn yr un modd, mae'r cyngor wedi creu pwyllgorau gyda llwyth gwaith cytbwys.

2) Mae DASA'n nodi nad oes unrhyw newid. Dim sylwadau pellach.

**Penderfyniad 8:**

1) Disgwylir mwy o eglurhad gan y PACGA. Mae'n debyg fod penderfyniad 8 yn awgrymu y bydd awdurdodau, yn amodol ar gymeradwyaeth y PACGA, yn gallu mynd dros eu terfyn cyflog uwch (19 ar hyn o bryd yn Abertawe) ar yr amod nad yw cyfanswm nifer y cyflogau uwch yn fwy na 50% o'r aelodau.

2) Os dyma yw'r achos, mae'r awdurdod yn ei gefnogi.

**Penderfyniad 43:**

1) Mae'r awdurdod yn croesawu penderfyniad y panel i ddefnyddio'r term "ad-dalu costau gofal" i ddisodli **lwfansau gofal,** o ganlyniad i drafodaeth gydag arweinyddiaeth CLILC.

2) Mae'r awdurdod yn rhannu pryderon y PACGA bod y Lwfans Gofal wedi bod yn isel, ac yn derbyn bod hyn yn debygol o fod o ganlyniad i sensitifrwydd y Lwfans. Mae'r awdurdod felly'n cefnogi cais y PACGA i ddiwygio "Atodiad 4: Cyhoeddiad o Daliadau Cydnabyddiaeth - Gofynion y Panel" yr adroddiad blynyddol.

Byddai'r diwygiad hwn yn caniatáu'r awdurdod i:

**a)** Gyhoeddi manylion am y symiau a ad-dalwyd i aelodau a enwyd; neu
**b)** Gyhoeddi cyfanswm y swm a ad-dalwyd gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ond nid yw wedi'i briodoli i unrhyw aelod a enwyd.

Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn pryderu, heb unrhyw gefnogaeth gan y Swyddfa Comisiynwyr Gwybodaeth (SCG), y gallai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI) ddweud fod y diwygiad hwn yn ddiystyr oherwydd gellir defnyddio'r ddeddf fel adnodd deddfwriaethol, gan orfodi awdurdod i ryddhau gwybodaeth. Mae'r awdurdod yn awgrymu bod y PACGA yn trafod gyda'r SCG er mwyn ceisio arweiniad ffurfiol ar y mater hwn cyn iddo ddod yn fater i'r awdurdod.

**Adran 11 - Absenoldeb Salwch i Ddeiliaid Cyflog Uwch**

**Dim penderfyniad:**

Mae'r PACGA yn cynnig diwygio'r Fframwaith Rheoliadau Absenoldeb Teuluol er mwyn darparu trefniadau penodol ar gyfer Deiliaid Cyflog Uwch y maent yn dioddef salwch tymor hir. Nodwyd y trefniadau yn Adroddiad Blynyddol Drafft PACGA.

Mae'r awdurdod yn croesawu cynigion y panel.

13 **CYNLLUN GWAITH.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynllun gwaith ar gyfer 2016-2017 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 20 Rhagfyr 2016 | Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr 2017 |
| 20 Rhagfyr 2016 | Modern.gov yn cael ei chyflwyno i'r holl bwyllgorau / cyfarfodydd craffu. |
| 28 Mawrth 2017 | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2017 |

Daeth y cyfarfod I ben am 5.49 pm

**CADEIRYDD**